

Cofnodion

PWYLLGOR RHEOLI TROSOLWG A CHRAFFU

Dyddiad: 30 Medi 2022

Amser: 10am

Lleoliad: Cyfarfod hybrid

Yn bresennol: Y Cynghorwyr P Hourahine (Cadeirydd), M Al-Nuaimi, M Evans, B Davies, G Horton,

B Owen (Prif Swyddog Gweithredol), P Jones (Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd), R Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol), T Mckim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid), M Bleazard (Rheolwr Gwasanaethau Digidol)

N Barnett (Cynghorydd Craffu), T Strange (Swyddog Cymorth Llywodraethu).

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr L James a B Davies, S Jenkins (Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol).

2. Datganiad o fuddiant

Dim.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cododd aelod o'r pwyllgor y mater o enwi'r aelod pwyllgor y cofnodwyd ei absenoldeb yn anghywir.

Nododd aelod o'r pwyllgor nad oedd argymhelliad wedi'i gofnodi'n gywir a dywedodd y dylai'r cyfarfodydd cymunedol bob pythefnos gyda'r heddlu gynnwys aelodau eraill o'r gymuned fel bod gwell integreiddio. Mae hyn yn cyfeirio at y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2022. Wrth ystyried Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22, cyfeiriodd yr aelod o'r pwyllgor at bryder blaenorol, a godwyd yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Medi 2021 wrth ystyried y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Y pryder a godwyd yng nghyfarfod 2021 oedd y dylai gwaith cydlyniant cymunedol a oedd yn digwydd bryd hynny rhwng yr heddlu a chymunedau lleiafrifoedd ethnig gynnwys pobl wyn. Hoffai'r aelod o'r pwyllgor weld yr ymholiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn y cofnodion pan fydd yn codi'r mater. Gan fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r gwaith ymgysylltu a ddigwyddodd yn 2021, mae crynodeb cyfredol o'r gwaith ymgysylltu cyfredol sy'n cynnwys cymunedau yng Nghasnewydd wedi'i rannu â'r Pwyllgor.

Nododd aelod o'r pwyllgor nad oedd ei gais am ddiffiniad manwl gywir o "sero net erbyn 2030" wedi'i gofnodi yn y cofnodion.

- Cadarnhaodd y Cadeirydd mai cais oedd hwn ac felly y byddai'r ateb yn cael ei roi y tu allan i'r Pwyllgor unwaith y bydd y Swyddog cyfrifol wedi ymchwilio iddo.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 23 Medi 2022 **fel cofnod gwir a chywir**.

4. Themâu Llesiant Cynllun Corfforaethol Drafft 2022-27 (Tudalennau 3 - 18)

Gwahoddedigion:

Beverly Owen – Prif Swyddog Gweithredol

Paul Jones – Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Rhys Cornwall – Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol

Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredol drosolwg o'r adroddiad ac eglurodd ei ddiben. Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwyr Strategol a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion grynodedbau o heriau a chyflawniadau'r meysydd perthnasol.

Cwestiynau:

Nododd y pwyllgor y dylai adborth ymgynghori a gyflwynir i'r pwyllgor ddangos yr adborth cadarnhaol a negyddol a chwestiynodd eiriad yr arolwg adborth i gynnwys cynifer o farnau cyhoeddus â phosibl.

Nododd y pwyllgor thema yng ngwaith y pwyllgor ynghylch adborth o arolygon, a gofynnodd am ddulliau eraill o gasglu adborth gan drigolion, heblaw'r arolygon a gyflenwyd drwy wi-fi ar fysiau ac mewn adeiladau cyhoeddus yng Nghasnewydd.

Teimlai aelod o'r pwyllgor fod dinasoedd eraill yn ysgogi'r economi yn fwy effeithiol na Chasnewydd a nododd fod gan Gasnewydd fwy o waith i'w wneud yn y maes hwn. Teimlai'r aelod o'r pwyllgor nad oedd wedi gweld llawer o fuddsoddiad effeithiol yng Nghasnewydd. Nododd yr aelod o'r pwyllgor fod angen canolbwyntio ar swyddi.

- Amlygodd y Prif Swyddog Gweithredol fod canol pob tref yn crebachu, a bod gan Gasnewydd lefel uwch o fewnfudo nag eraill. Amlygodd y Prif Swyddog Gweithredol hefyd fod ffocws mawr ar sut mae pobl yn cael mynediad at swyddi, ond eu bod yn ymwybodol o'r heriau.
- Mynegodd aelod o'r pwyllgor y gobaith am welliant yn y pum mlynedd nesaf.

Croesawodd y pwyllgor yr adroddiad a nododd fod gan Gasnewydd lawer i'w gynnig fel porth i Gymru, megis y Bont Gludo, Llong Casnewydd a safle Rhufeinig Caerllion, sy'n safle Rhufeinig o bwys yn Ewrop. Roedd y pwyllgor yn gobeithio y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y cynnig treftadaeth.

- Cytunodd y Prif Weithredwr â'r pwyllgor fod treftadaeth Casnewydd yn ased, a nododd yn y cynllun yr edrychwyd ar dreftadaeth, gyda'r strategaeth economaidd a'r strategaeth ddiwylliannol yn cyd-fynd â'r thema dreftadaeth.

Nododd aelod o'r pwyllgor nad oedd un ffordd benodol o wella'r economi a theimlai y dylid canolbwyntio ar y gwelliannau o 1% ac adeiladu arnynt. Nododd yr aelod o'r pwyllgor yr hinsawdd anodd ond teimlai fod angen i'r Cyngor fynd ar drywydd cyfleoedd pellach.

- Cytunodd y Prif Swyddog Gweithredol fod chwilio am sianeli creadigol i fynd i'r afael â'r materion hyn yn allweddol, a thynnodd sylw at y gwaith partneriaeth gyda Chasnewydd yn Un fel enghraifft o hyn.
- Nododd y Cadeirydd y gallai'r cwestiwn fod yn fwy addas ar gyfer Pwyllgor Craffu ar Berfformiad gwahanol a gofynnodd i hyn gael ei symud ymlaen.

Cytunodd y pwyllgor fod angen mwy o ffocws ar dreftadaeth ac awgrymodd y gellid cynyddu bioamrywiaeth drwy ddefnyddio manau o dan bontydd.

- Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd a Chynaliadwyedd fod gwaith wedi'i wneud ar fioamrywiaeth a rhoddodd diweddariad. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol yr angen i wneud defnydd creadigol o ofod i annog bioamrywiaeth ar draws y ddinas.

Tynnodd y pwyllgor sylw at bwysigrwydd cynnal y drefn o gynnal digwyddiadau yn y ddinas a thynnodd sylw at lwyddiant y digwyddiad 'Pride at the Port' diweddar gan eu bod yn bwysig i gynhwysiant.

Gofynnodd y pwyllgor iddynt ailystyried rhywfaint o'r derminoleg yn y Cynllun, megis 'dod yn' a 'creu' er mwyn cyfleu'n well yr hyn a gyflawnwyd.

Cododd aelod o'r pwyllgor bryder ynghylch prinder myfyrwyr prifysgol yng Nghasnewydd er gwaethaf y cyllid a roddwyd i'r brifysgol, a gofynnodd i'r pryderon hyn gael eu hanfon ymlaen at feysydd perthnasol, er mwyn i ymateb gael ei gyhoeddi.

Holwyd a oedd angen i aelod o'r pwyllgor ddatgan buddiant am ei fod yn gweithio i Amgueddfa Caerllion tra'i fod yn gwneud pwynt o blaid pwysigrwydd treftadaeth hanesyddol Caerllion.

- Er ei bod yn arfer da datgan buddiannau pryd bynnag y maent yn codi, eglurwyd mai diben y cyfarfod craffu hwn oedd rhoi adborth ar yr adroddiad yn unig. Byddai datganiad o fuddiant wrth bleidleisio ar y mater yn y Cyngor yn golygu na fyddai'r aelod yn gallu cymryd rhan yn y penderfyniad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fynychu.

Casgliadau:

- Nododd y Pwyllgor ddatblygiad Cynllun Corfforaethol sy'n cyflawni blaenoriaethau allweddol ar gyfer dinasyddion Casnewydd. Roedd yr aelodau hefyd yn falch o'r amcanion.
- Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod ymgynghori wedi parhau drwy fysiau ac arolygon ar y we, a gofynnodd am fwy o ymchwil annibynnol ar wahanol grwpiau yn y ddinas. Teimlai'r aelodau y byddai'n fuddiol cael swyddogion yng nghanol y ddinas i ymgynghori â gwahanol ddemograffeg wyneb yn wyneb. Teimlent y byddai hyn yn caniatáu cynnal ymgynghoriadau mwy strwythuredig er mwyn cael golwg gyflawn ar y materion a'r pryderon sy'n effeithio ar lawer o drigolion ar draws y ddinas. Teimlai'r aelodau hefyd y gallai fod yn dda gallu gweld canlyniadau ymgynghoriadau yn y dyfodol.
- Gofynnodd y Pwyllgor a ellid diwygio rhywfaint o'r derminoleg yn y Cynllun, megis 'dod yn' a 'creu' i adlewyrchu'n well y camau a gymerir i wneud yr hyn a gyflawnwyd yn llawer cliriach i ddarllenwyr yr adroddiad.

- Teimlai'r Pwyllgor y gellid cynnwys mwy o fanylion yn yr adroddiad ar y Cynnig Treftadaeth, o ystyried nifer o safleoedd treftadaeth Casnewydd, gan y byddai hyn yn cefnogi nodau'r Cynllun.
- Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch prinder myfyrwyr prifysgol yng Nghasnewydd a gofynnodd iddynt rannu gwybodaeth am nifer y myfyrwyr a'r cymorth a ddarperir drwy gyllid mewn ymateb gan y maes gwasanaeth perthnasol.

5. Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol 2021-22 (Tudalennau 19 - 60)

Gwahoddedigion:

Finn Madell – Pennaeth Diogelu Corfforaethol
Mary Ryan – Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Natalie Poyner – Pennaeth Gwasanaethau Plant

Rhoddodd y Pennaeth Diogelu Corfforaethol drosolwg o'r adroddiad.

Cwestiynau:

Gofynnodd y pwyllgor sut roedd hyfforddiant yn cael ei ddarparu.

- Eglurodd y Pennaeth Diogelu Corfforaethol fod yr hyfforddiant yn cael ei wneud yn bennaf drwy E-Ddysgu, a bod rhai o staff yr ysgolion wedi cwblhau sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb. Nodwyd yr awydd i ailgyflwyno hyfforddiant wyneb yn wyneb, ond amlygwyd y dylid canolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen ar ddysgwyr unigol.
- Soniodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion hefyd am yr anhawster o gael staff i ffwrdd i fynd i gynadleddau hyfforddiant diwrnod cyfan.

Roedd y pwyllgor yn falch o weld bod y Maes Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol a oedd yn adlewyrchu sylwadau ac argymhellion blaenorol. Nododd y pwyllgor fod nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu 14% mewn tair blynedd.

- Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion, er bod y nifer hwnnw'n wir, fod 50% o atgyfeiriadau'n cael eu hanfon i ymyrraeth gynnar, a bod y nifer yn arfer bod yn uwch. Yna esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod rhaniad 80/20 yn y Gwasanaethau Oedolion a anfonwyd at ymyrraeth gynnar a nododd fod anghenion gofalu yn llawer uwch.

Gofynnodd y pwyllgor a oes cyllid wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plant sy'n gadael gofal.

- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant fod cyllid wedi'i dderbyn ym mis Gorffennaf 2022, a dywedodd fod Cyngor ar Bopeth hefyd yn eistedd o fewn y swyddfa i gefnogi'r Cynghorydd Pobl Ifanc i wneud yn siŵr bod arian yn cael ei wario'n briodol.

Teimlai'r pwyllgor fod angen data mwy penodol drwy gydol yr adroddiad i roi'r wybodaeth a gafwyd, megis canrannau, yn ei chyd-destun, fel y gallai aelodau gael darlun cliriach o gymharu. Gofynnodd y pwyllgor hefyd a fyddai'n bosibl darganfod o'r canrannau faint o'r ffigurau sy'n nodi'r un plentyn yn cael ei ddiogelu sawl gwaith, a faint sy'n ddigwyddiadau sengl i blant.

Gofynnodd y pwyllgor a roddwyd sylw i gwestiwn a godwyd yn flaenorol ynghylch hyfforddiant gwrthrychol, ac a oedd hwn yn foddhaol gan ganolbwyntio ar faint o oriau y maent wedi'u cwblhau, ac a yw'n ddigon. Nododd yr aelod o'r pwyllgor hefyd mai nifer y rhai sydd wedi gwneud yr hyfforddiant diogelwch a roddwyd ond nid y ganran.

- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod yn rhaid i staff cofrestredig ailgofrestru bob tair blynedd, ond anogir staff nad ydynt wedi cofrestru i ddilyn yr hyfforddiant.
- Gofynnodd yr aelod o'r pwyllgor hefyd a oedd hyfforddiant staff yn gyfredol er y trosiant uchel.
- Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion ei fod yn gyfredol.

Roedd y pwyllgor yn dymuno diolch i'r meysydd gwasanaeth am eu gwaith a nododd fod y maes gwaith penodol hwn yn hynod o anodd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu presenoldeb.

Casgliadau:

- Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad a diolchodd i'r Swyddogion am eu gwaith caled. Roedd yr aelodau am iddo gydnabod eu bod yn gwerthfawrogi bod y maes gwaith penodol hwn yn hynod o anodd.
- Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod y Maes Gwasanaeth wedi gwrandao ar y sylwadau a'r argymhellion a wnaed yn y cyfarfod y llynedd ac wedi gwneud y diwygiadau priodol.
- Teimlai'r Pwyllgor fod angen data mwy penodol drwy gydol yr adroddiad i roi'r wybodaeth a gafwyd, megis canrannau, yn ei chyd-destun er mwyn i'r aelodau gael darlun cliriach o gymharu. Holodd yr aelodau hefyd a allai fod yn bosibl darganfod yn y canrannau faint o blant yn y ffigurau sy'n nodi'r un plentyn yn cael ei ddiogelu, a faint sy'n blant un digwyddiad.
- Gofynnodd y Pwyllgor i'r maes ffocws ynghylch a oedd yn bosibl i'r "strwythur ar gyfer Strwythur Uned Ddiogelu Casnewydd a Thimau Unigol Cynlluniau Blaenoriaeth Allweddol yn briodol i gwrdd â chyfrifoldebau'r Cyngor ar gyfer materion diogelu" gael ei ddileu gan ei fod y tu allan i arbenigedd y Pwyllgor. (Mae hyn yn gam gweithredu i'r Pwyllgor Craffu beidio â'i gynnwys mewn adroddiadau cyflenwi yn y dyfodol mewn gwirionedd, fodd bynnag roedd y Pwyllgor am iddo gael ei nodi).
- Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar gynnydd hyfforddiant gael ei roi i'r pwyllgor gan gynnwys data mwy penodol i roi unrhyw wybodaeth a roddwyd mewn cyd-destun, megis canrannau o ran faint o aelodau staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant. Holodd yr aelodau hefyd a fyddai'n bosibl cael diweddariad ar ffigurau megis hyfforddiant ac atgyfeiriadau a dderbyniwyd, bob hanner blwyddyn

6. Casgliadau Adroddiadau'r Pwyllgor

Gofynnodd y pwyllgor i'r cofnodion gael eu newid fel bod casgliadau'n cael eu cynnwys ar ddiwedd pob eitem berthnasol ar yr agenda.

7. Adroddiadau'r Cynghorydd Craffu

Gwahoddwr:

Neil Barnett – Cynghorydd Craffu

a) Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y Flaenraglen Waith, a hysbysodd y Pwyllgor o'r pynciau a oedd i'w trafod yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor:

Dydd Gwener, 21 Hydref 2022, 10am eitemau'r agenda; -

- Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion 2021-22
- Adroddiad Hunan-asesiad Lles Corfforaethol Blynyddol

Dydd Gwener, 2 Rhagfyr 2022, 10am yr eitem ar yr agenda; -

- Fframwaith Rheoli Risg Cynllunio a Pherfformiad

b) Taflen Weithredu

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod argymhellion a sylwadau o'r cyfarfod blaenorol wedi'u hanfon at Swyddogion. Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y camau gweithredu sy'n aros i gael eu cwblhau, felly bydd yr Ymgynghorydd Craffu yn mynd ar drywydd gwybodaeth gan swyddogion.

8. Digwyddiad Byw

[Gweld y recordiad yma.](#)